# BYDDWCH YN RHAN O GENHEDLAETH OES NEWYDD (GENERATION NEW ERA)

## Eich canllaw i'r astudiaeth

### Cynnwys


Contents ........ 1

ABOUT THE STUDY ........ 3

- What is Generation New Era? ........ 3
- How will it make a difference? ........ 3
- What sort of study is Generation New Era? ........ 3
- Who runs the study? ........ 4
- How was your family chosen for the study? ........ 4
- Why do we want to hear from you? ........ 5
- Which family members are invited to take part? ........ 5
- What if you live apart from your baby's other parent? ........ 5
- Want to find out more about the study and why you should take part? ........ 6

WHAT'S INVOLVED? ........ 7

- What happens next? ........ 7
  - Do both parents have to take part? ........ 7
  - Which parent will do which interview? ........ 7
  - What will I get for taking part? ........ 8
- What will we be asking about? ........ 8
- Want to find out more about what's involved? ........ 9

ADDING INFORMATION ........ 10

- Information from administrative records ........ 10

Which administrative records would we like to add?........................................................10
Who decides about adding administrative records?..........................................................10
How will information from administrative records be used? .............................................11
Information about where you live..........................................................................................11
LOOKING AFTER YOUR INFORMATION ..........................................................................12
Who has approved this research? .........................................................................................12
What will happen to the information you give?.....................................................................12
What if you choose not to take part, or withdraw from the study? ......................................12
Who is responsible for the study information?......................................................................13
What if taking part in Generation New Era leaves you concerned about something in your life? ..................................................................................................................................13
Have a question about the study?..........................................................................................14

# YNGHYLCH YR ASTUDIAETH

## Beth yw Cenhedlaeth Oes Newydd?

**Mae Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) yn astudiaeth wyddonol arloesol o filoedd o blant a anwyd yn 2022, a'u teuluoedd.** Mae pob babi yn arbennig, ond mae'r rhai sy'n cael eu geni heddiw yn perthyn i genhedlaeth un-o-fath. Mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw wedi dod â heriau unigryw i famau a thadau fel chi, eich plant a'ch dyfodol.

## Sut bydd yn gwneud gwahaniaeth?

Bydd Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) yn darparu **mewnwelediadau newydd hanfodol i iechyd a datblygiad plant sy'n cael eu magu yn ein byd cyfnewidiol**, a bydd yn helpu ymchwilwyr, llywodraethau a darparwyr gwasanaethau i wella bywydau plant a theuluoedd yn y DU.

## Pa fath o astudiaeth yw Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era)?

Astudiaeth carfan geni yw Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era). Mae'r astudiaethau hyn yn dilyn plant o enedigaeth trwy gydol eu hoes. **Maent yn dangos sut mae plant yn tyfu ac yn datblygu, a sut mae profiadau plentyndod yn effeithio ar fywydau yn ddiweddarach.**

Mae nifer o fesurau'r llywodraeth sydd o fudd i rieni heddiw wedi'u llywio gan ganfyddiadau astudiaethau fel Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era). Mae hyn yn cynnwys ymestyn absenoldeb mamolaeth i flwyddyn, cynyddu cyfradd wythnosol y tâl mamolaeth statudol, a chyflwyno pythefnos o absenoldeb tadolaeth â thâl. Gallwch ddarganfod mwy am sut mae astudiaethau carfan geni wedi gwneud gwahaniaeth ar ein gwefan astudiaeth.

**Mae'r DU yn arwain y byd yn y math hwn o ymchwil**, gydag astudiaethau cenedlaethol o bobl a anwyd ym 1946, 1958, 1970 a 2000 yn dal i redeg heddiw.

Fe wnaethom ofyn i'r cyfranogwyr yn yr astudiaethau carfan hyn pam eu bod yn mwynhau cymryd rhan. Dywedodd cyfranogwr o un o'r astudiaethau carfan geni "Mae'n ddiddorol bod yn rhan ohono…mae'n teimlo'n arbennig rhywsut i gael eich dewis."

Trwy fod yn rhan o Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era), gallwch chi **helpu i siapio'r dyfodol** i deuluoedd y DU.

## Pwy sy'n rhedeg yr astudiaeth?

Y Ganolfan Astudiaethau Hydredol (CLS), yng **Ngholeg Prifysgol Llundain (UCL)**, sy'n gyfrifol am yr astudiaeth. CLS yw prif ganolfan ymchwil astudiaethau carfan y DU. UCL yw un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd.

Mae'r tîm astudiaeth hefyd yn cynnwys Prifysgol Abertawe yng Nghymru, Prifysgol Caeredin yn yr Alban a Phrifysgol Ulster yng Ngogledd Iwerddon.

Mae**Ipsos** yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) (ipsos.com). Mae Ipsos yn sefydliad ymchwil annibynnol sy'n dilyn rheolau Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

Ariennir Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, prif ariannwr ymchwil cymdeithasol y DU a rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU.

## Sut dewiswyd eich teulu ar gyfer yr astudiaeth?

Dewiswyd eich teulu ar hap o gofnodion genedigaethau a gedwir gan adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau iechyd cyhoeddus. Darparodd y sefydliadau hyn eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi a'ch babi i Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era). Mae hyn wedi ei gymeradwyo gan bwyllgorau arbennig ar gyfer pob gwlad i ganiatáu hyn.

Mae pob teulu a ddewisir ar gyfer yr astudiaeth yn unigryw ac ni allwn gymryd unrhyw un arall yn eich lle.

## Pam rydyn ni eisiau clywed gennych chi?

**Nid oes unrhyw un sy'n hollol debyg i'ch plentyn a'ch teulu.** Er mwyn i ganfyddiadau’r astudiaeth fod o fudd i bob math o deuluoedd, mae angen inni glywed gan lawer o deuluoedd gwahanol, ym mhob un o wledydd a rhanbarthau’r DU, gan gynnwys eich un chi.

Trwy gynnwys teuluoedd o bob cefndir a diwylliant, a phob math o blant, gallwn adeiladu darlun llawn o fywydau’r genhedlaeth hon a rhoi cyfle i bawb gael eu clywed.

## Pa aelodau o'r teulu sy'n cael eu gwahodd i gymryd rhan?

**Rydyn ni eisiau clywed gan famau a thadau i'n helpu ni i adeiladu darlun llawn o fywyd pob plentyn.** Mae tadau a mamau yn bwysig ym mywydau plant. Efallai y bydd gan rieni farn wahanol am eu plentyn a phrofiadau gwahanol gyda nhw.

Gall partneriaid sy'n byw gyda rhieni hefyd gael eu gwahodd i gymryd rhan.

## Beth os ydych chi'n byw ar wahân i riant arall eich babi?

**Rydym am gynnwys mamau neu dadau sy’n byw ar wahân i riant arall eu plentyn,** beth bynnag fo’r berthynas rhwng y rhieni, a pha gysylltiad bynnag sydd ganddynt â’u babi.

**Bydd pob rhiant yn cael ei gyfweld ar wahân**. Nid oes angen i'ch babi fod yn bresennol.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth o gofnodion geni, os yw ar gael, i wahodd pob rhiant i gymryd rhan. Byddwn hefyd yn gofyn i bob rhiant am fanylion cyswllt y rhiant arall, y gallant ei roi os dymunant. Dim ond i gysylltu â'r rhiant arall am yr astudiaeth hon y defnyddir y manylion hyn.

**Bydd eich cyfranogiad ac ymatebion i'r arolwg yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol**. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn dweud wrth riant arall eich babi am unrhyw ran o'r wybodaeth a roddwch nac am eich amgylchiadau, gan gynnwys eich cyfeiriad.

Os yw'n well gennych i ni beidio â chysylltu ymhellach â rhiant arall eich plentyn neu os oes gennych unrhyw bryderon am hyn, cysylltwch â ni ar 0800 151 0610 neu gnestudy@ipsos.com.

## Eisiau darganfod mwy am yr astudiaeth a pham y dylech chi gymryd rhan?

Ewch i gnestudy.info/why-take-part

# BETH SY'N GYSYLLTIEDIG?

## Beth sy'n digwydd nesaf?

1) Bydd**cyfwelydd hyfforddedig yn galw yn eich cyfeiriad i ddarganfod a hoffech gymryd rhan.** Byddant yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi. Bydd**y cyfwelydd bob amser yn cario ID llun**. Os ydych chi allan neu os nad yw'n gyfleus, bydd y cyfwelydd yn dod yn ôl ar amser gwell.
2) Os penderfynwch gymryd rhan, bydd y cyfwelydd yn trefnu **diwrnod ac amser sy'n gweithio i chi ar gyfer eich cyfweliad.**
3) Hoffem i un rhiant gwblhau **cyfweliad 60 munud** yn bersonol gyda'r cyfwelydd.
4) Hoffem i'r rhiant arall gwblhau **cyfweliad 30-40 munud ar wahân.** Gellir gwneud hyn naill ai'n bersonol gyda'r cyfwelydd neu ar-lein, pa un bynnag sy'n gweddu orau. Gallwn hefyd wneud hyn weithiau dros y ffôn.
5) **Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn taleb i ddiolch am eu hamser.**

Mae'r cyfwelwyr wedi arfer siarad â mamau a thadau mewn llawer o wahanol gymunedau, sefyllfaoedd a mathau o deuluoedd. Gellir cynnal cyfweliadau mewn ieithoedd eraill. I gael y llyfryn hwn a mwy o wybodaeth am yr astudiaeth mewn ieithoedd eraill, ewch i'n gwefan.

## Oes rhaid i'r ddau riant gymryd rhan?

Gobeithiwn y bydd y ddau riant yn cymryd rhan, ond mater i bob un ohonoch yw gwneud eich penderfyniad eich hun.

## Pa riant fydd yn gwneud pa gyfweliad?

Bydd y cyfweliad hirach fel arfer yn cael ei wneud gan y rhiant sy'n treulio'r rhan fwyaf o amser gyda'r babi. Mae'r cyfweliad arall yn fyrrach oherwydd dim ond unwaith y mae angen i ni ofyn rhai cwestiynau fesul babi neu aelwyd. Chi biau'r dewis.

## Pryd fyddaf yn cael fy nghyfweld eto?

Gobeithiwn eich gwahodd i gymryd rhan bob ychydig flynyddoedd i ddarganfod sut mae eich plentyn yn dod ymlaen wrth iddo fynd yn hŷn. Chi fydd yn penderfynu bob amser a ydych am gymryd rhan.

## Beth fydda i'n ei gael am gymryd rhan?

Bydd pob rhiant sy'n cymryd rhan yn **derbyn taleb stryd fawr** fel diolch am eu hamser. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael diweddariadau rheolaidd am ganfyddiadau pwysig yr astudiaeth.

## Am beth fyddwn ni'n holi?

Byddwn yn gofyn am **iechyd a thwf eich babi, ymddygiad a datblygiad, cwsg, diet a'r gweithgareddau y gallech eu gwneud gyda'ch babi.** Os oes gennych chi efeilliaid, tripledi neu fwy, bydd rhai o'r cwestiynau'n cael eu hailadrodd am bob babi.

Byddwn yn holi am **eich profiadau fel mam neu dad**: eich cartref a'ch teulu; eich sefyllfa waith; eich iechyd a lles; eich agwedd ynghylch magu plant a'ch perthynas â'ch babi; y gefnogaeth a gewch gan bobl yn eich bywyd; unrhyw wasanaethau rydych chi neu'ch babi yn eu defnyddio; ac unrhyw drefniadau gofal plant.

Byddwn hefyd yn gofyn rhai cwestiynau amdanoch **chi a'ch teulu**, gan gynnwys unrhyw blant eraill sydd gennych, cyllid y teulu a ble rydych chi'n byw. Bydd hyn yn cynnwys peth gwybodaeth allweddol am riant arall eich plentyn ac unrhyw bartneriaid.

Mae gwybod sut beth yw eich bywyd a sut rydych chi'n profi bod yn rhiant yn hanfodol i adeiladu darlun llawn o fywyd eich babi.

Gallwch hefyd hepgor unrhyw gwestiynau nad ydych eisiau eu hateb. Yn ystod cyfweliadau personol, caiff rhai o'r cwestiynau eu hateb yn breifat ar gyfrifiadur y cyfwelydd.

## Eisiau darganfod mwy am yr hyn mae'n ei olygu?

Ewch i gnestudy.info/whats-involved

# YCHWANEGU GWYBODAETH

## Gwybodaeth o gofnodion gweinyddol

Mae adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, fel y GIG, yn casglu cofnodion gweinyddol am bob un ohonom yn rheolaidd er mwyn helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau.

**Hoffem ychwanegu gwybodaeth o gofnodion gweinyddol amdanoch chi a'ch plentyn at eich ymatebion i'r astudiaeth.** Mae hyn yn gwneud yr astudiaeth hyd yn oed yn fwy defnyddiol i ymchwilwyr a llunwyr polisi, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella gwasanaethau cyhoeddus i bawb.

## Pa gofnodion gweinyddol yr hoffem eu hychwanegu?

Hoffem ychwanegu gwybodaeth o **gofnodion iechyd, addysg a gofal cymdeithasol** ar eich cyfer chi a'ch plentyn. I gael gwybod beth mae'r cofnodion hyn yn ei gwmpasu, ewch i wefan yr astudiaeth. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â'ch amgylchiadau chi a'ch plentyn yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Hoffem ychwanegu gwybodaeth o'r cofnodion hyn yn barhaus am gyfnod yr astudiaeth.

## Pwy sy'n penderfynu ychwanegu cofnodion gweinyddol?

**Eich dewis chi yw** pa rai o'r cofnodion hyn sy'n cael eu hychwanegu at eich ymatebion i'r astudiaeth. **Bydd y cyfwelydd yn dweud mwy wrthych am hyn**, a gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd.

Efallai yr hoffech drafod ychwanegu gwybodaeth o gofnodion eich plentyn gyda'i riant arall. Byddwn ond yn gofyn i'r rhiant sy'n gwneud y cyfweliad hirach am hyn.

**Os nad ydych yn dymuno gwneud hyn, gallwch barhau i gymryd rhan yn yr astudiaeth.**

## Sut bydd gwybodaeth o gofnodion gweinyddol yn cael ei defnyddio?

Bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion ymchwil yn unig. Ni fydd ychwanegu gwybodaeth o gofnodion gweinyddol yn effeithio ar eich gwasanaethau, hawliau, triniaeth neu unrhyw yswiriant iechyd a gewch chi neu eich plentyn. Ni fydd yn effeithio ar eich budd-daliadau na threth. Bydd ychwanegu gwybodaeth yn helpu Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) i greu darlun mwy cyflawn o'ch bywydau.

Gwyliwch ein fideo am ychwanegu gwybodaeth o gofnodion gweinyddol: gnestudy.info/whats-involved/adding-more-information-about-you.

Dysgwch sut bydd Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) yn gofalu am eich gwybodaeth yn adran nesaf y llyfryn hwn ac ar wefan yr astudiaeth.

## Gwybodaeth am ble rydych chi'n byw

Byddwn hefyd yn ychwanegu gwybodaeth am yr **ardal leol neu'r eiddo** lle rydych chi'n byw. Gallai hyn fod yn wybodaeth megis lefelau llygredd aer, mannau gwyrdd, amwynderau lleol, effeithlonrwydd ynni eich cartref. Mae lle rydyn ni'n byw yn cael effaith enfawr ar sawl agwedd ar fywyd, felly mae deall mwy am ble rydych chi'n byw a'ch ardal leol yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ymchwil. Yn aml, mae'r data daearyddol hyn **ar gael i'r cyhoedd**. Rydym yn bwriadu gwneud hyn ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth, ond os yw'n well gennych nad ydym yn gwneud hyn, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r manylion ar gefn y llyfryn hwn.

# GOFALU AM EICH GWYBODAETH

## Pwy sydd wedi cymeradwyo'r ymchwil hwn?

Mae'r ymchwil hwn wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan **Bwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG.** Mae hwn yn grŵp annibynnol o bobl sydd wedi ymrwymo i ddiogelu eich diogelwch, hawliau, lles ac urddas.

## Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a roddwch?

Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio at **ddibenion ymchwil yn unig**. Bydd eich ymatebion i'r arolwg yn cael eu rhoi at ei gilydd gydag atebion yr holl bobl eraill sy'n cael eu cyfweld a byddant ar gael yn ddiogel ar gyfer ymchwil trwy UCL Data Safe Haven, Gwasanaeth Data'r DU ac amgylcheddau ymchwil diogel eraill. Weithiau gall hyn gynnwys sefydliadau masnachol sy'n defnyddio'r data at ddibenion ymchwil cymeradwy. Nid yw'r data ymchwil hwn yn cynnwys unrhyw enwau, cyfeiriadau, na manylion personol eraill a allai adnabod unigolion yn yr astudiaeth yn uniongyrchol.

**Caiff eich gwybodaeth astudiaeth ei thrin yn gwbl gyfrinachol a'i chadw'n ddiogel**. Fe'i defnyddir yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a bydd yn cael ei chadw nes na fydd ei angen mwyach gan yr astudiaeth. Mae gan Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) reolau diogelwch llym a systemau diogel i ddiogelu eich gwybodaeth. Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol oddi wrth aelodau eraill o'ch teulu a chan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau neu'n gweinyddu budd-daliadau y gallwch chi neu'ch babi eu defnyddio neu eu derbyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol iawn efallai y bydd eich cyfrinachedd yn cael ei dorri, er enghraifft, os bydd rhywbeth y dywedwch wrthym yn nodi bod rhywun mewn perygl sylweddol o niwed.

## Beth os dewiswch beidio â chymryd rhan, neu dynnu'n ôl o'r astudiaeth?

Nid oes yn rhaid i chi gymryd rhan yn Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) os nad ydych yn dymuno gwneud, ac mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg,

heb orfod rhoi rheswm.  Os byddwch yn tynnu'n ôl neu os byddwn yn colli cysylltiad â chi, **byddwn yn cadw ac yn parhau i ddefnyddio eich gwybodaeth astudiaeth ar gyfer ymchwil oni bai eich bod yn dweud wrthym am beidio â gwneud hynny.**

Os byddwch yn dewis peidio â chymryd rhan, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o gofnodion geni i ddeall pwy sy'n cymryd rhan a phwy nad yw'n cymryd rhan.

## Pwy sy'n gyfrifol am wybodaeth yr astudiaeth?

Y rheolydd data ar gyfer yr astudiaeth yw **University College London (UCL)**. Sail gyfreithiol UCL dros ddefnyddio'ch gwybodaeth yw 'tasg er budd y cyhoedd' o dan GDPR.

Mae rhagor o wybodaeth am breifatrwydd, cyfrinachedd a hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol ar gael ar wefan Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era): gnestudy.info/privacy, gan gynnwys hysbysiad preifatrwydd yr astudiaeth.

Os ydych chi'n poeni am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu ar gyfer yr astudiaeth gallwch gysylltu â:

Swyddfa Diogelu Data UCL: data-protection@ucl.ac.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:www.ico.org.uk

## Beth os yw cymryd rhan yn Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) yn eich gadael yn bryderus am rywbeth yn eich bywyd?

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau rhannu eich profiadau fel rhiant ac ateb cwestiynau am eich babi.  Ni ddylai ymuno â'r astudiaeth achosi unrhyw niwed ac ni fydd byth yn effeithio ar unrhyw wasanaethau na gofal. Ond os bydd eich cyfweliad yn eich gadael yn bryderus am unrhyw beth sy'n digwydd yn eich bywyd, mae yna sefydliadau y gallwch siarad â nhw.

Am gyngor a chefnogaeth gyffredinol i rieni:

**Home Start:** home-start.org.uk, 0116 464 5490

Am gyngor a chefnogaeth ar faterion ariannol:

**Canolfan Cyngor ar Bopeth:** citizensadvice.org.uk

Am gefnogaeth gyfrinachol pan y profir teimladau o gyfyngder neu anobaith.

**Samariaid:** samaritans.org, 116 123

Am gyngor ar bryderon iechyd: cysylltwch â'ch **meddyg teulu neu ymwelydd iechyd lleol.**

Gellir dod o hyd i ragor o ffynonellau cymorth ar wefan yr astudiaeth.

## Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth?

- 0800 151 0610 (mae galwadau o linellau tir am ddim, ond gall costau o ffonau symudol amrywio, felly gwiriwch gyda'ch ddarparwr)
- gnestudy@ipsos.com
- Rhadbost IPSOS ASTUDIAETH GNE
- www.gnestudy.info
- @gnestudy